Hawdd ei Ddeall

# Gofal Iechyd GIG Parhaus

## 2. Canllaw hawdd ei ddeall i asesiadau GIP:

- sut i gael asesiad
- a sut y dylen nhw gael eu gwneud




Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o'r **Llyfryn Gwybodaeth am Ofal Iechyd GIG Parhaus ar gyfer Unigolion, Teuluoedd a Gofalwyr**.

**Hydref 2022**

# Cynnwys

**Tudalen**


**Am y llyfryn yma............................................................3**

**Asesiadau GIP trac cyflym.........................................10**

**Yr Offeryn Rhestr Wirio................................................12**


**Bod yn barod ar gyfer eich asesiad GIP..................19**

**7 prif werthoedd GIP....................................................28**

**Cipolwg ar y broses asesu GIP..................................30**

**Geiriau anodd..............................................................33**

# Am y llyfryn yma




Mae'r llyfryn yma yn **rhan 2** o 5 canllaw hawdd eu deall i Ofal Iechyd GIG Parhaus.




Mae wedi ei ysgrifennu ar sail canllaw sydd wedi cael ei ysgrifennu gan Lywodraeth Cymru. Rydych chi'n gallu darllen y canllaw gwreiddiol yma: [llyw.cymru/gofal-iechyd-parhaus-y-gig-llyfryn-gwybodaeth-ar-gyfer-unigolion-teuluoedd-gofalwyr](llyw.cymru/gofal-iechyd-parhaus-y-gig-llyfryn-gwybodaeth-ar-gyfer-unigolion-teuluoedd-gofalwyr).

Mae 5 llyfryn hawdd eu deall:

**1. Beth ydy Gofal Iechyd Parhaus (GIP)?**

**2. Canllaw hawdd ei ddeall i asesiadau GIP**

**3. Pwy sydd yn gymwys i cael GIP?**

**4. Sut mae GIP yn cael ei drefnu?**

**5. Beth sydd yn digwydd os nad ydw i'n gymwys i gael GIP?**




Maen nhw ar gael yma: [llyw.cymru/gofal-iechyd-parhaus-y-gig-llyfryn-gwybodaeth-ar-gyfer-unigolion-teuluoedd-gofalwyr](llyw.cymru/gofal-iechyd-parhaus-y-gig-llyfryn-gwybodaeth-ar-gyfer-unigolion-teuluoedd-gofalwyr).

Mae'r llyfryn yma wedi cael ei wneud yn hawdd ei ddeall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cysylltwch gyda Llywodraeth Cymru os ydych chi angen y llyfryn yma mewn unrhyw fformat arall.




Mae gwybodaeth am Ofal Iechyd GIG Parhaus ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yma: llyw.cymru/gofal-iechyd-parhaus-y-gig-llyfryn-gwybodaeth-ar-gyfer-unigolion-teuluoedd-gofalwyr.

**Neu rydych chi'n gallu cysylltu gyda Llywodraeth Cymru am ragor o wybodaeth:**




**Drwy'r post:** Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ



**Ar y ffôn:** 0300 0604400

**Drwy e-bost:** Cymorth@llyw.cymru




Mae gwybodaeth gyswllt ar gyfer eich bwrdd iechyd lleol ar gael yn **llyfryn 1 tudalen 16**.




Neu maen nhw ar gael ar wefan **Galw Iechyd Cymru**: 111.wales.nhs.uk/localservices/localhealthboards?locale=cy&term=A.

# Beth sydd yn cychwyn asesiad GIP?




Mae gennych hawl i gael **asesiad** o'ch holl anghenion gofal a chymorth.

**Asesiad** ydy pan mae gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn gweithio gyda'i gilydd i benderfynu beth ydy eich anghenion. A sut y dylai eich anghenion gael eu hateb.




Mae eich Awdurdod Lleol yn gyfrifol am wneud **asesiadau** i ddarganfod **anghenion gofal cymdeithasol** pobl. Mae hyn yn cael ei wneud drwy'r tîm gwasanaethau cymdeithasol oedolion.



**Rhaid** i'r gwasanaethau cymdeithasol ddweud wrth y Bwrdd Iechyd Lleol os ydyn nhw yn **asesu** rhywun maen nhw'n meddwl sydd angen gwasanaethau GIG hefyd.



Mae hyn yn cynnwys pobl maen nhw'n meddwl sydd yn gallu bod yn **gymwys** ar gyfer GIP.

Mae **cymwys** yn meddwl bod gennych chi'r hawl i gael GIP oherwydd eich bod chi'n ateb yr amodau.



Dyma 1 ffordd y mae eich **asesiad** GIP yn gallu dechrau.

Neu efallai mae **asesiad** GIP yn gallu dechrau oherwydd:



- Rydych chi wedi bod yn yr ysbyty, ac mae'n amlwg y byddwch chi angen gofal a chymorth ar ôl i chi adael yr ysbyty.




- Wrth edrych i weld eich anghenion gofal, mae eich anghenion wedi newid.




- Mae eich iechyd wedi mynd yn waeth, a dydy'r gofal rydych chi'n ei gael nawr ddim yn ddigon erbyn hyn.



- Rydych chi'n symud o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion



- Mae gennych chi gyflwr sydd yn mynd yn waeth yn gyflym. Os felly, fe ddylech chi allu cael **asesiad trac cyflym**.




Am ragor o wybodaeth am **asesiadau trac cyflym**, ewch i **dudalen 10**.



Os ydych chi’n meddwl eich bod yn **gymwys** i gael GIP, ond does yna neb wedi siarad gyda chi, siaradwch gyda:

- staff yr ysbyty sydd yn cymryd rhan yn eich gofal
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- neu eich Meddyg Teulu.



Rydych chi’n gallu gofyn i **offeryn rhestr wirio GIP** gael ei wneud.



Am ragor o wybodaeth am yr **Offeryn Gwirio GIP**, darllenwch **dudalennau 12 i 18**.

# Asesiadau GIP trac cyflym



Mae **asesiad GIP trac cyflym** yn **asesiad** GIP sydd yn cael ei wneud yn gyflym iawn.

Fe ddylech chi gael **asesiad GIP trac cyflym** os:



- ydy eich iechyd yn mynd yn waeth yn gyflym

- neu wedi mynd yn waeth yn ddiweddar



- ac rydych chi angen rhagor o ofal a chymorth ar frys.



Er enghraifft, oherwydd eich bod yn agos at ddiwedd bywyd. Neu oherwydd eich bod wedi cael damwain ddifrifol iawn.




Fe ddylai eich staff ysbyty neu staff gofal ofyn i'ch meddyg neu nyrs am **asesiad trac cyflym**.



Fe ddylen nhw ofyn i'r meddyg neu'r nyrs gofrestredig sydd yn gyfrifol am eich:

- diagnosis
- triniaeth
- neu ofal.



Fe ddylen nhw ddeall eich anghenion iechyd. A chael profiad o ddelio gyda'ch math chi o anghenion.



Os ydy eich meddyg neu nyrs gofrestredig yn dweud y dylech chi gael pecyn gofal ar frys, fe ddylai eich Bwrdd Iechyd Lleol ei drefnu ar unwaith.




Fe ddylai **asesiadau trac cyflym** gael eu gorffen o fewn 2 ddiwrnod gwaith.

# Yr Offeryn Rhestr Wirio



Offeryn ydy'r offeryn rhestr wirio y mae staff iechyd a gofal cymdeithasol yn gallu ei ddefnyddio i'w helpu nhw i benderfynu os ydych chi angen **asesiad** GIP llawn.



Does dim rhaid iddyn nhw ei ddefnyddio. Ond mae'n gallu eu helpu nhw i wneud yn siŵr bod pawb sydd angen **asesiad** GIP llawn yn gallu cael un.




Os ydych chi yn clywed nad ydych chi angen **asesiad** GIP ac nad oedd yr Offeryn Rhestr Wirio GIP wedi cael ei ddefnyddio, rydych chi'n gallu cwyno.




Rhaid i staff iechyd a gofal cymdeithasol ofyn am eich **cydsyniad** cyn iddyn nhw wneud Offeryn Gwirio GIP i chi.

Mae **cydsyniad** yn meddwl eich bod yn gadael i rhywbeth ddigwydd neu eich bod yn cytuno i wneud rhywbeth.



Fe ddylech chi gael gwybod mewn digon o amser bod Offeryn Rhestr Wirio yn cael ei wneud i chi.



Fe ddylech chi gael y cyfle i fod yno pan mae'n cael ei wneud, gydag unrhyw deulu, gofalwr neu **eiriolydd** rydych chi'n eu dewis.



**Eiriolaeth** ydy pan mae rhywun yn eich helpu chi i wneud yn siŵr bod beth rydych chi ei eisiau a'ch anghenion yn cael eu clywed. Maen nhw'n gallu siarad o'ch plaid chi. Mae'r person yma yn cael eu galw yn **eiriolydd**.




Fe ddylai'r Offeryn Rhestr Wirio gael ei wneud yn yr iaith rydych chi'n ei dewis.

**Mae'r Offeryn Rhestr Wirio yn edrych ar 12 maes angen:**



- **Anadlu.**



- **Maeth** – bwyta ac yfed.



- **Ymataliaeth –** eich gallu i reoli eich pledren a'ch coluddyn



- **Cywirdeb croen** – iechyd croen



- **Symudedd** – eich gallu i symud neu i gael eich symud yn rhydd ac yn hawdd



- **Cyfathrebu** – eich gallu i rannu eich meddyliau a’ch teimladau gydag eraill. A sut rydych chi angen cael gwybodaeth.



- **Anghenion seicolegol ac emosiynol** – beth rydych chi ei angen i deimlo yn hapus, yn fodlon ac yn heddychlon.



- **Gwybyddiaeth** – sut rydych chi’n dysgu ac yn deall pethau.



- **Ymddygiad** – sut rydych chi’n ymddwyn ac yn ymateb  i wahanol sefyllfaoedd.



- **Therapïau cyffuriau a meddyginiaeth** – pa feddyginiaethau rydych chi eu hangen ac yn eu cymryd. A pha broblemau gyda phoen sydd gennych chi.



- **Cyflyrau ymwybyddiaeth newidiedig** – ydych chi'n effro ac yn ymwybodol o beth sydd o'ch cwmpas. Neu oes gennych chi gyflwr sydd yn golygu nad ydych chi'n effro ac yn ymwybodol ar rai adegau.




- **Anghenion gofal pwysig eraill** – unrhyw anghenion eraill sydd gennych y dylid meddwl amdanyn nhw.



Fe fyddwch chi'n cael lefel angen o dan bob maes. Er enghraifft, lefel isel o angen neu lefel uchel o angen.



Dydy'r Offeryn Rhestr Wirio hwn ddim yn penderfynu os ydych chi'n **gymwys** i gael GIP.



Mae'n cael ei ddefnyddio i benderfynu os ydych chi angen **asesiad** GIP llawn.



Fe ddylai canlyniad yr Offeryn Rhestr Wirio gael ei egluro yn glir i chi. Ac i'ch teulu, gofalwr neu **eiriolydd**.



Fe ddylech chi gael y canlyniad mewn ysgrifen hefyd mor fuan â phosibl. Fe ddylai hyn:




- fod yn yr iaith o'ch dewis chi



- egluro pam bod y penderfyniad wedi cael ei wneud



- fel arfer yn rhoi copi o'r Offeryn Rhestr Wirio llawn.





Fe fydd canlyniad yr Offeryn Rhestr Wirio naill ai:

- **Ie** – rydych chi angen **aesiad** GIP, neu
- **Na** – dydych chi ddim angen **asesiad** GIP.




Os ydy canlyniad yr Offeryn Rhestr Wirio yn **na**, rydych chi'n gallu gofyn i'r Bwrdd Iechyd Lleol edrych ar y penderfyniad.



Fe ddylai'r Bwrdd Iechyd Lleol edrych i mewn i hyn i chi. Does dim angen iddyn nhw wneud Offeryn Rhestr Wirio arall. Fe fyddan nhw'n edrych ar eich holl wybodaeth.



Fe ddylen nhw anfon llythyr atoch chi yn egluro eu penderfyniad. Fe ddylai hyn gynnwys gwybodaeth am eich hawl i gwyno os nad ydych chi'n hapus gyda'r penderfyniad.




Mae gwybodaeth am sut i gwyno gan ddefnyddio proses gwynion GIG yn **llyfryn 1 tudalen 21**.

# Bod yn barod ar gyfer eich asesiad GIP



Mae **asesiad** GIP yn gallu bod yn anodd ei ddeall ac mae'n ddryslyd i lawer o bobl.



Mae'n syniad da cael rhywun i'ch cefnogi chi. Meddyliwch pwy rydych chi ei eisiau gyda chi.



Mae **asesiad** GIP am beth sydd orau i **chi**. Gofynnwch gwestiynau ar unrhyw amser os dydych chi ddim yn siŵr am rywbeth.



Mae'n debyg y bydd angen i chi siarad am bethau sydd yn gallu bod yn anodd i siarad amdanyn nhw. Ond mae'n bwysig bod yn agored a gonest.

## Eiriolaeth



Rydych chi'n gallu dewis eich **eiriolydd** eich hun. Mae'n gallu bod yn:

- Aelod o'r teulu neu ffrind.
- **Eiriolydd** o wasanaeth **eiriolaeth** lleol.
- Rhywun ar wahân sydd yn fodlon ei wneud i chi.



Fe ddylai eich Bwrdd Iechyd Lleol ac Awdurdod Lleol ddweud wrthych chi am wasanaethau **eiriolaeth** lleol sydd yn gallu eich helpu chi.

## Cydsyniad




Fe fydd angen i chi roi **cydsyniad** ar sail gwybodaeth i'r **asesiad** GIP




Mae hyn yn meddwl bod gennych chi'r holl wybodaeth rydych chi ei hangen i ddewis caniatáu i **asesiad** GIP ddigwydd neu beidio.



Ar ddechrau eich **asesiad** GIP fe fyddwch chi'n cael **Cydgysylltydd Gofal**.



Fe fydd eich **Cydgysylltydd Gofal** yn cyfarfod gyda chi ac yn dweud sut mae popeth yn gweithio.




Fe fyddan nhw yn gwneud yn siŵr bod gennych chi'r holl wybodaeth rydych chi ei angen i roi eich **cydsyniad ar sail gwybodaeth.**




Fe ddylai eich **Cydgysylltydd Gofal** ddweud wrthych chi sut y gallai GIP effeithio ar unrhyw fudd-daliadau rydych chi'n eu cael.




Os ydych chi'n cael **Taliadau Uniongyrchol,** fe ddylai eich **Cydgysylltydd Gofal** ddweud wrthych chi sut y gallai GIP effeithio ar eich **Taliadau Uniongyrchol**.

Arian ydy **Taliadau Uniongyrchol** rydych chi'n gallu ei gael gan eich Awdurdod Lleol yn lle gwasanaeth. Rydych chi'n gallu ei ddefnyddio i brynu eich cymorth a'ch gwasanaethau eich hun.




Mae rhagor o wybodaeth am GIP a **Thaliadau Uniongyrchol** yn **llyfryn 4 tudalen 12**.



Mae gennych chi hawl:

- I ddweud na i gael **asesiad** GIP.
- I ddweud na i GIP, ar ôl **asesiad**.



Mae hyn yn gallu effeithio ar y ffordd y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol a'r Awdurdod Lleol yn gallu darparu gwasanaethau i chi. Fe fyddan nhw yn egluro hyn i chi.




Os ydych chi'n dweud na, fe fydd y GIG yn parhau i ddarparu gwasanaethau iechyd am ddim. Er enghraifft, gwasanaethau Meddyg Teulu a nyrsys ardal.



Ond dydy eich Bwrdd Iechyd Lleol ddim yn gallu bod yn gyfrifol am drefnu a thalu am eich gofal cymdeithasol. A dyna fyddai'n digwydd o dan GIP.



Rydych chi'n gallu newid eich meddwl yn nes ymlaen.



Os ydych chi'n dweud na, efallai y byddwch chi'n cael pecyn gofal ar y cyd yn lle hynny. Mewn pecyn gofal ar y cyd:

- fe fydd eich Bwrdd Iechyd Lleol yn gweithio allan eich gofal iechyd

- ac fe fydd eich Awdurdod Lloel yn gweithio allan eich gofal cymdeithasol.



Efallai bydd rhaid i chi dalu tuag at y gwasanaethau rydych chi'n eu cael gan eich Awdurdod Lleol.





Efallai nad ydy rhai pobl yn gallu rhoi **cydsyniad** oherwydd **nad oes ganddyn nhw alluedd**.

Pan **nad oes gan berson alluedd**, mae'n meddwl nad ydyn nhw'n gallu gwneud penderfyniadau drostyn nhw eu hunain ar yr amser hynny.



Fel arfer oherwydd mae ganddyn nhw gyflwr sydd yn effeithio ar eu meddwl mewn rhyw ffordd, fel:



- niwed i'r ymennydd neu strôc
- dementia – cyflwr sydd yn effeithio ar yr ymennydd
- problem iechyd meddwl
- anabledd dysgu difrifol iawn.

Os **nad oes gennych chi alluedd** fe fydd y staff yn edrych i weld os:



- ydych chi wedi rhoi hawl i berson arall i wneud penderfyniadau drosoch chi. Mae'r person yma yn cael eu galw yn **atwrneiaeth arhosol.**



- ydy llys wedi rhoi hawl i rywun wneud penderfyniadau drosoch chi.



Os nad oes gennych chi rywun i wneud penderfyniadau drosoch chi, fe fydd y person sydd yng ngofal yr **asesiad** GIP yn gyfrifol am wneud penderfyniad 'budd gorau'.

Fe fyddan nhw yn penderfynu a ydy hi o fudd gorau i chi:




- barhau gyda'r **asesiad** GIP



- neu aros tan y bydd gennych chi **alluedd** unwaith eto ac yn gallu gwneud y penderfyniad eich hun.

Fe fyddan nhw'n meddwl am beth sydd orau i chi. Ac fel arfer fe fyddan nhw yn siarad gyda:



- eich teulu a ffrindiau i ddarganfod beth fyddech chi eisiau



- neu **Eiriolydd Galluedd Meddyliol Annibynnol**. Dyma rywun sydd wedi cael hyfforddiant arbennig i sefyll i fyny dros bobl **sydd heb alluedd**.

# Iaith




Drwy'r holl broses **asesiad** GIP, mae gennych chi'r hawl i ddefnyddio pa bynnag iaith sydd orau i chi.




Mae hyn yn gallu bod yn Gymraeg, Saesneg neu Iaith Arwyddion Prydeinig. Ni ddylai defnyddio iaith ar wahân i Saesneg achosi unrhyw oedi yn eich **asesiad** GIP.



Mae gennych hawl i ddewis y ffyrdd gorau o gyfathrebu i chi. Er enghraifft, efallai bod yn well gennych chi gael pethau wedi eu hysgrifennu i lawr, mewn Hawdd ei Ddeall, yn cael ei siarad wyneb yn wyneb neu mewn Braille.





Mae hyn yn bwysig. Mae angen i chi allu cymryd rhan yn llawn yn eich **asesiad** GIP. Felly rydych chi'n cael llais cyfartal yn eich iechyd a'ch gofal cymdeithasol.

# Gofalwyr



Gofalwr ydy unrhyw un sydd yn rhoi cymorth di-dâl i aelod o'r teulu neu ffrind sydd yn methu ymdopi heb yr help yma.




Os oes gennych chi ofalwr, mae ganddyn nhw hawl i gael **asesiad anghenion gofalwyr**.



Mae hyn ar gyfer gweld os ydy eich gofalwr angen unrhyw gymorth i'w helpu nhw i barhau i ofalu amdanoch chi.



Eich Awdurdod Lleol sydd yn gwneud **asesiad au anghenion gofalwyr**.



Rhaid i'ch Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol ddweud wrthych chi am hawl eich gofalwr i gael **asesiad anghenion**.

# 7 prif werth GIP



Rhaid i bawb sydd yn cymryd rhan yn eich **asesiad** GIP weithio yn ôl y gwerthoedd a'r syniadau yma:



**1. Pobl yn gyntaf**

Rhaid iddyn nhw wneud beth sydd orau i chi. Ac fe ddylech chi gael eich trin gyda pharch.



**2. Gonestrwydd**

Rhaid iddyn nhw fod yn onest a chlir am y cyngor maen nhw yn ei roi. Rhaid iddyn nhw allu egluro yn glir pam maen nhw wedi gwneud y penderfyniadau maen nhw wedi eu gwneud.



**3. Dim amdana'i hebddof i**

Chi ydy'r arbenigwr am eich bywyd eich hun. Fe ddylech chi a'ch gofalwyr gymryd rhan yn llawn yn yr **asesiad** GIP. A gydag unrhyw gynlluniau gofal sydd yn cael eu gwneud.




**4. Dydy gofal ddim yn cael ei oedi oherwydd angyhytuno ynghylch pwy sydd yn talu am beth**

Ni ddylai eich gofal gael ei oedi oherwydd nad ydy gwasanaethau yn gweithio yn dda gyda'i gilydd. Rhaid iddyn nhw weithio allan unrhyw anghytuno ynghylch eich gofal mor fuan â phosibl.

**5. Canolbwyntio ar angen**



Mae'n bwysig bod eich cyflwr iechyd yn cael ei ddeall. Ond fe ddylai'r ffocws fod ar eich anghenion. Fe ddylai eich gofal a chymorth eich helpu chi i fyw mor annibynnol â phosibl. Ac yn eich helpu gyda beth sydd fwyaf pwysig i chi.



**6. Gofal wedi'i drefnu yn dda**

Rhaid i staff wneud popeth posibl i gadw'r gofal sydd gennych chi yn barod yn ei le. Ac i wneud unrhyw newidiadau i'ch gofal yn llyfn ac yn hawdd i'w rheoli.



**7. Cyfathrebu**

Rhaid i staff gymryd gofal ychwanegol i gyfathrebu gyda chi yn y ffordd rydych chi yn ei dewis. Fe ddylen nhw ddarganfod beth ydy hynny cyn dechrau'r **asesiad**.

# Cipolwg ar y broses asesu GIP



Mae gweithiwr proffesiynol yn meddwl eich bod yn gallu bod yn **gymwys** am GIP.



Fe fyddwch chi'n cael Cydgysylltydd Gofal. Dyma berson fydd yn trefnu ac yn edrych dros yr holl **asesiad**. Fe fyddan nhw:

- Yn brif pwynt cyswllt i chi.
- Yn ateb eich cwestiynau.
- Yn rhoi gwybod i chi beth sydd yn digwydd.
- Yn gofyn am eich **cydsyniad**.
- Yn rhoi cyngor i chi am **eiriolaeth**.
- Yn gwneud yn siŵr bod eich anghenion cyfathrebu yn cael eu hateb.




Fe fydd eich Cydgysylltydd Gofal yn creu **Tîm Aml-Ddisgyblaeth**.

**Tîm Aml-Ddisgyblaeth** ydy grŵp o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. Maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd i wneud eich **asesiad** GIP. Rydyn ni yn eu galw yn **TAD** yn fyr.



Fe fydd y **TAD** yn casglu gwybodaeth a phrawf amdanoch chi a'ch anghenion. Efallai  y bydd angen iddyn nhw gysylltu gyda chi i wneud hyn.



Fe fydd **cyfarfod TAD** yn digwydd.




Yn y **cyfarfod TAD**, fe fydd y **TAD** yn edrych ar eich holl anghenion i benderfynu os oes gennych chi angen iechyd sylfaenol.



Rydych chi a'ch gofalwr, teulu neu **eiriolydd** yn gallu mynd i'r cyfarfod yma. Fe ddylech chi gymryd rhan yn llawn.



Fe fydd **TAD** yn dweud wrth y Bwrdd Iechyd Lleol os ydyn nhw'n meddwl eich bod yn **gymwys** ar gyfer GIP neu beidio.




Os ydych chi'n **gymwys** ar gyfer GIP, fe ddylai eich pecyn gofal fod yn barod o fewn **2 wythnos** o ddyddiad **cyfarfod y TAD**.



Ac fe ddylai eich Bwrdd Iechyd Lleol drefnu bod eich gofal yn dechrau o fewn 8 wythnos o unrhyw **asesiad** cynnar rydych chi wedi ei gael oedd yn dangos eich bod chi'n gallu bod ag angen iechyd sylfaenol. Er enghraifft, y rhestr wirio.



Os ydych chi angen mwy nag 8 wythnos ar gyfer **adsefydlu** neu **ailalluogi**, fe fydd eich gofal yn dechrau pan fyddwch chi wedi gorffen eich **adsefydlu** neu **ailalluogi**.

**Adsefydlu** ac **ailalluogi** ydy'r gofal a'r cymorth rydych chi'n eu cael ar ôl salwch neu ddamwain i'ch helpu chi i allu gwneud eich tasgau o ddydd i ddydd.

# Geiriau anodd

## Adsefydlu ac Ailalluogi

Adsefydlu ac ailalluogi ydy'r gofal a'r cymorth rydych chi'n eu cael ar ôl salwch neu ddamwain i'ch helpu chi i allu gwneud eich tasgau o ddydd i ddydd.

## Asesiad

Asesiad ydy pan mae gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn gweithio gyda'i gilydd i benderfynu beth ydy eich anghenion. A sut y dylai eich anghenion gael eu hateb.

## Cydsyniad

Mae cydsyniad yn meddwl eich bod yn caniatáu i rhywbeth ddigwydd neu yn cytuno i wneud rhywbeth.

## Cymwys

Mae cymwys yn meddwl bod gennych yr hawl i gael GIP oherwydd eich bod yn ateb yr amodau.

## **Eiriolaeth** ac **Eiriolydd**

Eiriolaeth ydy pan mae rhywun yn eich helpu chi i wneud yn siŵr bod beth rydych chi eisiau a'ch anghenion yn cael eu clywed. Maen nhw'n gallu siarad o'ch plaid chi. Mae'r person yma yn cael eu galw yn eiriolydd.

## Heb alluedd

Pan nad oes gan berson alluedd, mae'n meddwl nad ydyn nhw'n gallu gwneud penderfyniadau drostyn nhw eu hunain ar yr amser hynny.

## Taliadau Uniongyrchol

Taliadau Uniongyrchol ydy arian rydych chi'n gallu ei gael yn lle gwasanaeth. Rydych chi'n gallu ei ddefnyddio i brynu eich cymorth a'ch gwasanaethau eich hun.

## Tîm Aml-Ddisgyblaeth neu TAD

Tîm Aml-Ddisgyblaeth ydy grŵp o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. Maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd i wneud eich asesiad GIP. Rydyn ni yn eu galw yn TAD yn fyr.